






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

2 Ebrill 2021



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

2 Ebrill 2021

- Mae'r amcangyfrif diweddaraf gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru ar 31 Mawrth yn parhau rhwng 0.7 a 0.9 (cyfwng hyder o 90%) ac mae wedi bod yn is, ond yn agos at 1 am un wythnos ar ddeg. Ar 26 Mawrth, amcangyfrifir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bod R_t yn 0.9 (cyfwng hyder o 95%: 0.9 i 1.0) sy'n fwy cyfredol ond yn defnyddio data achosion yn unig.
- Fel yr adroddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn yr wythnos ddiweddaraf, gostyngodd nifer yr achosion neu arhosodd yr achosion yn sefydlog ym mhob grŵp oedran. Roedd yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 26-44 oed.
- Ar gyfer yr wythnos rhwng 21 a 27 Mawrth 2021, mae [arolwg heintiau COVID-19](#) yn amcangyfrif bod oddeutu 1 o bob 570 o boblyn y boblogaeth gymunedol (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 1,050 i 1 o bob 350) wedi cael COVID-19. Mae ansicrwydd ynghylch y duedd yng nghanran y bobl sydd wedi profi'n bositif yng Nghymru yn yr wythnos ddiweddaraf.
- Mae achosion a gadarnhawyd o COVID-19 mewn ysbytai ac mewn gwelyau â chymorth anadlu ymwithiol yn parhau i ostwng ac maent ar yr un lefel a welwyd ym mis Medi 2020. Mae marwolaethau COVID-19 a gofnodwyd gan wylidwriaeth marwolaethau cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru hyd at 31 Mawrth yn parhau i ostwng, gyda chyfanswm o 5 marwolaeth wedi'u hadrodd ar gyfer y cyfnod o 7 diwrnod blaenorol.
- Ar 31 Mawrth, VOC-20DEC-01 (B.1.1.7, a nodwyd gyntaf yn y DU) yw'r amrywiolyn amlycaf yng Nghymru o hyd. Cafwyd 26 o achosion a gadarnhawyd ac achosion tebygol ar sail genomeg o VOC-20DEC-02 (B.1.351, yr amrywiolyn sy'n gysylltiedig â De Affrica) a chwe achos o'r amrywiolyn VUI-21FEB-03 (B.1.525, sy'n gysylltiedig â Nigeria).
- Fel yr adroddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae dros 1.4M dos cyntaf o frechlyn rhag COVID-19 wedi'u rhoi yng Nghymru ac mae dros 460,000 o bobl wedi cael eu hail ddos (data ar 2 Ebrill 2021). Mae'r nifer sydd wedi derbyn y brechlyn wedi cynyddu ym mhob grŵp economaidd-gymdeithasol ac ethnig a gofnodwyd ers mis Chwefror. Mae anghydraddoldebau sylweddol yn parhau o ran y nifer sydd wedi derbyn y brechlyn COVID-19 rhwng grwpiau ethnig ac economaidd -gymdeithasol, ond mae bylchau anghydraddoldeb rhwng y grwpiau hyn mewn oedolion hŷn wedi lleihau ar y cyfan.

- Dros y pedair wythnos a ddaeth i ben ar 6 Mawrth 2021, amcangyfrifodd [arolwg heintiau COVID-19](#) fod 56,000 o bobl ar aelwydydd preifat Cymru wedi cofnodi eu bod yn profi COVID hir. O gyfranogwyr yr astudiaeth a gafodd brawf positif am COVID-19, roedd nifer yr achosion o symptomau 12 wythnos ar ôl eu heintio yn uwch ar gyfer cyfranogwyr benywaidd (14.7%) na chyfranogwyr gwrywaidd (12.7%) ac roedd ar ei uchaf ymhlith y rhai rhwng 25 a 34 oed (18.2%).
- Yn dilyn y newid yn y canllawiau o aros gartref i aros yn lleol ar 13 Mawrth, mae symudedd wedi cynyddu ar draws pob ffynhonnell. Bu gostyngiad yn y rhai sy'n gwneud teithiau hanfodol yn unig.

Diweddariadau gan SAGE 85 (31 Mawrth 2021)

- Bu cynnydd bach yn nifer yr achosion o B.1.351 gyda chyswllt â theithio, er nad oes cynnydd mewn trosglwyddiad cymunedol. Er bod nifer yr achosion o B.1.351 mewn rhannau o Ewrop yn parhau'n uchel, ychydig o achosion a nodwyd fel rhai a fewnforiwyd i'r DU o Ewrop, gyda'r rhan fwyaf yn dod o rannau eraill o'r byd. Mae'r amrywiolyn hwn yn peri pryder oherwydd bod tystiolaeth nad yw imiwnedd naturiol ac imiwnedd a ysgogir gan frechlynnau yn diogelu rhag yr amrywiolyn hwn.
- Nid yw astudiaethau diweddar (nad ydynt wedi'u cyhoeddi eto – adroddwyd ar lafar yn unig) yn dangos gwahaniaeth yng ngallu gwahanol amrywiolynnau i oroesi yn yr amgylchedd. Roedd yr astudiaethau'n ystyried goroesiad B.1.1.7 a B.1.351 ar arwynebau, a B.1.1.7 yn yr aer.
- Mae modelu wedi'i ddiweddarau gan SPI-M (sy'n ystyried cydrannau sy'n benodol i fap llacio cyfyngiadau Lloegr, ond sydd hefyd yn berthnasol i Gymru), yn parhau i awgrymu bod trydedd ton yn debygol iawn. Mae ansicrwydd ynghylch amseriad, graddfa a siâp y don hon oherwydd y bydd pobl mewn grwpiau agored i niwed nad oes ganddynt amddiffyniad uniongyrchol (naill ai am nad ydynt wedi cael eu brechu, neu am nad yw brechu'n atal haint neu salwch yn llawn), ac nad oes digon o amddiffyniad anuniongyrchol yn sgil imiwnedd ehangach y boblogaeth (hyder canolog-uchel).
- Mae SAGE yn tynnu sylw at ansicrwydd allweddol yn y modelu, gan gynnwys ynghylch effeithiolrwydd brechlynnau, ymatebion ymddygiadol a newidiadau tymhorol. Nid yw'r prif senarios yn y modelau chwaith yn ystyried imiwnedd sy'n gwanhau, effeithiau posibl amrywiolynnau sy'n peri pryder ac eithrio B.1.1.7 (a nodwyd gyntaf yn y DU), neu'r posibilrwydd o ymddangosiad amrywiolynnau nad yw imiwnedd neu frechu yn diogelu yn eu herbyn. Gan adlewyrchu tystiolaeth ddiweddar, mae tybiaethau am y nifer sy'n derbyn brechlynnau yn uwch ac mae rhagdybiaethau cyflwyno brechlynnau yn arafach ar gyfer y cylch modelu hwn.

- Mae'r papurau a gyhoeddwyd gan SAGE ar gael [yma](#). Mae modelu polisi'r Gell Cyngor Technegol yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd i ystyried effeithiau'r cyfyngiadau ymhellach dros y misoedd nesaf